DRAFT

# COFNODION CYARFOD ARFEROL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 10 MAWRTH 2025

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Morwenna Pugh

Dewi Prysor

Geoffrey Jones

Rory Francis

Troy Maclean

Gareth Davies

Mark Thomas

David Meirion Jones

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Dref

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Roedd dau gynrychiolydd o'r Heddlu yn bresennol, a hefyd aelod o'r cyhoedd.

Yn absenoldeb y Cadirydd, cymerodd yr Is-gadeirydd y Gadair ar gyfer y cyfarfod.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Peter Jones a Dafydd Dafis.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion Cadeirydd**

Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw faterion i'w hadrodd.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr yr Heddlu, yn rhoi gwybdoaeth am gyfraddau troseddu yn yr ardal. Dywedodd hefyd bod cais am arian wedi ei wneud i gynnal Diwrnod Agored. Diolchwyd iddynt am fynychu a dywedwyd y byddai rhywun yn mynychu bob yn ail fis at y dyfodol.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas ei fod wedi derbyn cwynion ynglŷn â sbwriel o amgylch tir Garregfilltir i lawr at Bont Pandy.

**6. Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 10 Chwefror 2025**

Dywedodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ei fod wedi cyflwyno ymddiheuriad ond nad oedd wedi ei gofnodi. Cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod y cofnodion yn cael eu derbyn, yn amodol ar y cywiriad uchod, a chytunodd pawb.

**7. Clwb Bowlio**

Trafodwyd cais y Clwb Bowlio i ddefnyddio Caffi'r Pafiliwn i wneud paned ac ati, nes byddai'r adeilad wedi ei osod ar brydles eto. Dywedwyd y byddai'n anodd gan nad oedd tap a sinc ac ati nag unrhyw arwyneb i osod offer, ac y byddai, efallai, yn achosi pryderon iechyd a diogelwch. Hefyd, byddai gwaith yn cael ei wneud ar yr adeilad yn fuan, a fyddai'n cymhlethu'r sefyllfa ymhellach. Ar ôl y drafodaeth, cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y Clwb yn cael defnyddio'r toiledau yn unig, gan fod modd gwneud hynny heb gael mynediad i'r adeilad ei hunan, a chytunodd pawb.

**8. Argymhellion Pwyllgor Mwynderau – 17 Chwefror 2025**

Nododd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod enw'r Cynghorydd Dewi Prysor Williams wedi ei nodi fel 'Dewi Prysor Jones', a bod nifer yr oriau o waith garddio wedi ei nodi fel 20 awr y mis yn hytrach nag 20 awr yr wythnos. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y cofnodion yn cael eu derbyn, yn amodol ar y cywiriadau uchod, a chytunodd pawb.

**10. Adfywio Cynhaliol**

Roedd adroddiad wedi ei ddosbarthu ar waith y grŵp. Gwirfoddolodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh i gynrychioli'r Cyngor ar y grŵp a chytunodd pawb y cawsai ddefnyddio'r Siambr i gyfarfod, a fyddai fel rheol yn digwydd bob rhyw 3 mis.

**11. Rhestr Taliadau**

Cyflwynwyd rhestr taliadau mis Chwefror/Mawrth. Cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y rhestr yn cael ei derbyn a chytunodd pawb.

**12. Ceisiadau Cynllunio**
Ystyried y ceisiadau Cynllunio canlynol:

i. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
Rhif Cais: C25/0084/03/LL
Lleoliad: Perllan Gymunedol Pant Yr Ynn, Blaenau Ffestiniog, LL41 3LZ
Bwriad: Ardal barcio arfaethedig
https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=36046&language=cy

Penderfynwyd peidio ag anfon sylwadau ar y cais hwn gan mai'r Cyngor Tref a oedd wedi ei gyflwyno.

ii. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
Rhif Cais.: C24/0805/03/LL
Lleoliad: Tir ger Moelwyn Motors, Blaenau Ffestiniog, LL41 3AJ

Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies nad oedd y Cyngor Tref yn cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cais a chytunodd pawb.

**13. Teledu Cylch Cyfyng**

Adroddwyd bod cyfarfod gyda'r Heddlu yn yr Orsaf leol nos Fercher 12fed Mawrth. Byddai'r Cynghorwyr yn gwybod mwy am y sefyllfa TCC ar ôl y cyfarfod hwnnw.

DRAFT

**14. Diffibriliwr, Caffi Llyn, Tanygrisiau**

Ystyriodd y Cynghorwyr gais i fabwysiadu diffibriliwr ger Caffi Llyn, Tanygrisiau. Cynigiodd y Cynghorydd Dewi Prysor ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies bod y Cyngor yn gwneud hynny a chytunodd pawb.

**15. Hwyl yn y Parc 2025, Tanygrisiau**

Adroddwyd bod cyfarfod i'w gynnal nos Lun 17 Mawrth am 6pm i drafod y digwyddiad.

**16. Caffi'r Pafiliwn, Y Parc**

Derbyniwyd adroddiad y trydanwr ar y Caffi. Cytunwyd cynnal ymweliad safle unwaith y byddai'r adroddiad strwythurol wedi ei dderbyn hefyd.

**17. System Gyfrifiadurol i'r Swyddfa**

Cyflwynodd y Dirprwy Glerc adroddiad i'r Cynghorwyr ar yr hyn roedd ei angen i warchod systemau cyfrifiadurol y Cyngor Tref. Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies bod y Clercod yn mynd ati i wneud y trefniadau cyn belled â nad oedd y swm yn mynd dros £5,000.00 a chytunodd pawb.

**18. Arwydd Cyngor Tref Ffestiniog yn y Ganolfan Gymdeithasol**

Cytunwyd y dylid holi'r Pwyllgor Rheoli, i weld os gellir cael caniatâd i osod arwydd yn dangos bod y Cyngor Tref yn yr adeilad.

**19. Polisi'r Wasg a'r Cyfryngau**

Cyflwynodd y Dirprwy Glerc bolisi drafft ar sut i ddelio gyda'r wasg a'r cyfryngau, ac yn amodol ar un newid, cynigiodd y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dewi Prysor bod y polisi yn cael ei dderbyn a chytunodd pawb.

**20. Deiseb Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu**

Cyflwynwyd cais i gefnogi deiseb Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, a chytunwyd bod yr aelodau yn arwyddo os oeddynt eisiau gwneud hynny.

**21. Gwerthu Tir Penybryn, Rhiwbryfdir**

Rhoddwyd diweddariad ar werthiant y tir a chytunwyd bod y Cyngor yn gosod hysbyseb yn y Cambrian Newis am bythefnos yn olynol.

**23. RSPCA**

Cytunwyd bod croeso i'r RSPCA gael stondin yn ystod penwythnos Hwyl yn y Parc 2025, a phwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod y gwasanaeth yn parhau i weithredu yn lleol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm.

DRAFT